



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: 55678090

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoli maethynnau – Rheoli taenu tail da byw yn gynaliadwy

Cynigion ar gyfer cynllun trwyddedu hyd at 2025.

10 Hydref 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 ISBN ddigiol 978-1-83504-871-9

Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'r pecyn o fesurau y mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi cytuno arno i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio ar lygredd amaethyddol. Roedd yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer cynllun trwyddedu mewn cysylltiad â'r mesur rheoli maethynnau a nodir yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Mae'r mesur yn gosod terfyn – a fesurir fel 170kg o nitrogen yr hectar – ar y maethynnau o dail da byw y gellir eu taenu ar draws daliad, fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau, yn flynyddol.

Canolbwyntiodd y cynigion yn yr ymgynghoriad ar drefniadau arfaethedig ar gyfer rhoi trwydded o dan amgylchiadau penodol a fyddai'n caniatáu rhagori ar y terfyn uchod, hyd at uchafswm o 250kg o nitrogen yr hectar, yn amodol ar ofynion cnydau ac amodau a ddyluniwyd i ddiogelu'r amgylchedd. Roedd y cynigion yn cynnwys proses ymgeisio ac amodau trwydded. Byddai pob mesur arall sydd wedi'u cynnwys o fewn y Rheoliadau yn parhau mewn grym, neu fel arall yn amodol ar y cyfnod pontio perthnasol.

Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: nmls.Ymholiadau@llyw.cymru

Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori:

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2022-11/rheoli-maethynnau-rheoli-taenu-tail-da-byw-gynaliadwy-dogfen-ymgyngghori_0.pdf

Cynnwys

Cynnwys.....	4
Gwybodaeth Gefndir	5
Proses ymgynghori.....	5
Cynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad	6
Ymatebion i'r Ymgynghoriad	6
Ymateb Llywodraeth Cymru	11

Gwybodaeth Gefndir

Mae'r rhesymau dros ansawdd dŵr gwael yng Nghymru yn amrywio, gydag amryw o sectorau'n cyfrannu, gan gynnwys trafndiaeth, llygredd trefol, amaethyddiaeth, mwyngloddio a chwarela (gan gynnwys llygredd o fwyngloddiau metel segur) a gollyngiadau'r diwydiant dŵr. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol a dinistriol ar fywyd gwyllt a chynefinoedd ac yn cyfyngu ar ein gallu i adeiladu'r cartrefi carbon isel a'r seilwaith ategol sydd eu hangen ar ein cymunedau. Rhaid i ni ddatblygu a gweithredu dull 'Tîm Cymru' traws-sectoraidd integredig i wella ansawdd dŵr yn y tymor hir a chynnal amgylchedd iach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (y Rheoliadau) yn helpu i fynd i'r afael ag achosion llygredd o weithgarwch amaethyddol. Mae'r mesurau'n seiliedig ar yr arferion da y mae llawer o'n ffermwyr a'n rheolwyr tir wedi bod yn eu rhoi ar waith ers blynnyddoedd. Eu nod yw atal llygredd rhag digwydd ac maent yn cynnwys camau ynghylch cynllunio, rheoli a rhoi maethynnau ar y tir, ymhlith pethau eraill. Maent yn helpu i gyflawni ystod eang o'n rhwymedigaethau rhyngwladol¹ a domestig² ac yn helpu i gyflawni amcanion allweddol ar fioamrywiaeth, ansawdd aer, amonia a deunydd gronynnol a chyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwyr.

Proses ymgynghori

Ar 5 Hydref 2022, rhoddodd [Datganiad Ysgrifenedig](#) yr wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio ar Lygredd Amaethyddol i weithio gyda'r gymuned ffermio i wella ansawdd dŵr ac ansawdd aer, gan ddefnyddio Rheoliadau Adnoddau Dŵr 2021, a defnyddio dull sydd wedi'i dargedu at y gweithgareddau hynny y gwyddys eu bod yn achosi llygredd. Ymrwymodd y datganiad i ymgynghori ar gefnogaeth a thystiolaeth i gynllun trwyddedu fod yn weithredol tan 2025.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad 12 wythnos [Rheoli Maethynnau - Rheoli taenu tail da byw yn gynaliadwy](#) rhwng 25 Tachwedd 2022 a 17 Chwefror 2023. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad, a'r ffurflen ymateb, ar dudalen we ymgynghori Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd gweithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ychwanegol yn Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru 2022.

Mewn [Datganiad Ysgrifenedig](#) a gyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 2023, diolchwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad, gan nodi, er na chyflwynwyd dystiolaeth newydd, fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos lefelau uchel o gefnogaeth ar gyfer cynllun, ar yr amod ei fod yn syml gwneud cais am drwydded. Roedd gwrthwynebiadau i'r cynllun yn canolbwyntio ar yr effeithiau amgylcheddol a'r effeithiau ar ansawdd dŵr.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi crynodeb ffurfiol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

¹ Mae hyn yn cynnwys [Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd](#); [Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol](#); [Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig](#) a [Protocol Gothenburg](#)

² Mae'r Rheoliadau'n cyfrannu at ein rhwymedigaethau o dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a nodau [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#)

Cynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer cynllun trwyddedu mewn cysylltiad â rheoliad 4 o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Mae'r mesur yn gosod terfyn blynyddol – a fesurir fel 170 cilogram o nitrogen yr hectar – ar y maethynnau o dail da byw y gellir eu taenu ar draws daliad, fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau.

Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar drefniadau arfaethedig ar gyfer rhoi trwydded o dan amgylchiadau penodol ac a fyddai'n caniatáu mynd y tu hwnt i'r terfyn blynyddol, hyd at uchafswm o 250 cilogram o nitrogen yr hectar, yn amodol ar ofynion cynydau ac amodau a ddyluniwyd i ddiogelu'r amgylchedd. Roedd y cynigion yn cynnwys proses ymgeisio ac amodau trwydded.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Gofynnodd yr ymgynghoriad 15 cwestiwn. Dewisodd llawer o'r ymatebwyr grwpio eu hymatebion, gan ei gwneud hi'n anodd gwneud cymariaethau ystadegol â'r cwestiynau gwreiddiol.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn seiliedig ar y penodau yn yr ymgynghoriad a'r cwestiynau a ofynnwyd.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i gyflwyno cynllun trwyddedu, i fod yn weithredol tan 2025, er mwyn caniatáu taenu lefelau uwch o nitrogen o dan rai amgylchiadau penodedig? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn.

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gefnogaeth gref i'r egwyddor o gynllun trwyddedu cyfyngedig ochr yn ochr â rheolaethau i liniaru risgiau amgylcheddol posibl. Nododd nifer sylweddol o'r rhai a oedd yn nodi eu bod yn cefnogi'r syniad y byddai'n well ganddynt sicrhau bod unrhyw gynllun yn hygyrch i gynifer o ffermydd â phosibl ac i brosesau biwrocraidd fod yn gyfyngedig ac yn gymesur.

Nododd nifer sylweddol o'r ymatebwyr fod baich gweinyddol rhedeg cynllun trwyddedu, a'r costau cysylltiedig, yn peri pryder iddynt, yn enwedig o ystyried hyd cyfyngedig y cynllun arfaethedig, a fyddai'n rhedeg tan 2025. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw hefyd at faterion mewn perthynas â chost, o ran cost datblygu cais am drwydded ac, er na ymgynghorwyd arnynt, costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu trwydded gan y rheoleiddiwr.

Roedd ymatebwyr eraill yn cynnig cymorth cymwys ar gyfer yr egwyddor o gynllun trwyddedu am amser cyfyngedig. Nododd rhai hefyd y cyfle i gyfundrefn drwyddedu gynnig mecanwaith cryfach ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth na'r hyn y byddai rheoliadau yn unig yn ei gynnig. Roedd y cyfle i gael gwared ar drwydded yn cael ei ystyried yn fudd posibl i'r rhai nad oeddent yn cadw at yr amodau.

Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion. Roedd gwrthwynebiad yn bennaf ar sail pryderon amgylcheddol, neu effaith risg uwch o lygredd i ddŵr ar sectorau eraill. Nododd y rhai a oedd yn gwrthwynebu effaith bosibl ar afonydd

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a'r anghydbwysedd rhwng y cynigion a'r gofynion niwtraliaeth faethol sy'n ofynnol o sectorau eraill.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysra arfaethedig? Os na, pam hynny a pha feini prawf fyddech chi'n eu cynnig?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol i broses ymgeisio, yn amodol ar driniaeth amserol er mwyn sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl i gynllunio busnes a sicrhau bod gan ffermwyr sicrwydd rheoleiddiol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd yn cefnogi'r gofyniad cymhwysra arfaethedig i 80% o'r daliad gael ei reoli fel glaswellt oherwydd ei lefelau nitrogen uchel ac fel cnwd gorchudd parhaol a lleihau colledion pridd. Fodd bynnag, cododd rhai bryderon y gallai hyn effeithio'n annheg ar y rhai a allai fethu'r trothwy o 80% o drwch blewyn, gan nodi y dylid ystyried busnesau fferm o dan yr amgylchiadau hyn.

Mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd posibl mewn dadnitreiddiad pridd mewn priddoedd gwlyb cynnes a allai ddod yn fwy cyffredin oherwydd newid hinsawdd. Yn ogystal, cwestiynodd rhai ymatebwyr a oedd angen y meini prawf tir glas 80% o ystyried y ffaith y bydd canlyniadau profi a dadansoddi pridd yn cael eu hystyried beth bynnag. Roedd llawer yn teimlo y byddai canlyniadau profi a dadansoddi pridd yn darparu meini prawf cymhwysra priodol.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai fod angen dangos anghenion cnydau yn glir?

Er bod yr egwyddor o benderfynu ar ofynion cnwd yn cael ei chefnogi gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, denodd y mecanwaith o nodi'r gofyniad, a'r dangos oedd yn dod yn sgil hynny, ystod o safbwyntiau gwahanol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol i ddull a oedd yn cynnwys asesiad o anghenion pridd a chnydau am nitrogen a ffosfforws ac yn defnyddio profion pridd i raddau. Fodd bynnag, roedd y safbwyntiau ar sut i ddangos gofynion cnydau yn llwyddiannus yn amrywio'n sylweddol.

Cwestiynodd rhai ymatebwyr ddiben dangos gofyniad cnwd ar gam ymgeisio a gallu Llywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i asesu ceisiadau. Roedd eraill yn gefnogol i'r bwriad i ddangos angen cnwd wrth ymgeisio i ganiatáu i gynlluniau gael eu hasesu.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig y cynllun rheoli maethynnau?

Roedd cydnabyddiaeth eang o'r angen i gynllunio rheoli maethynnau o ystyried y gofyniad o fewn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ar gyfer cynlluniau ar gyfer nitrogen. Unwaith eto, cafwyd nifer o wahanol safbwyntiau ar sut y gellid cyflawni hyn orau a'r ffactorau i'w cynnwys o fewn cynllun rheoli maethynnau.

Roedd rhai rhanddeiliaid amaethyddol yn poeni y gallai cynllun rheoli maethynnau y cytunwyd arno ac a roddwyd o dan drwydded fod yn gyfyngol ac atal ffermydd rhag ymateb i amodau hinsoddol newidiol neu newid yn amodau'r farchnad. Cyfeiriwyd at

brosesau ar gyfer gweithredu rhanddirymiad o derfynau nitradau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a'r gwahaniaethau o fewn y prosesau ymgeisio.

Codwyd pryderon hefyd am lefel y manylion a allai fod yn ofynnol ar gyfer cynllun rheoli maethynnau, yn enwedig mewn perthynas ag amser a chostau posibl cysylltiedig datblygu cynlluniau pwrpasol ac argaeledd ymgynghorwyr i gynorthwyo busnesau fferm i wneud hynny. Roedd pryder hefyd am ddatblygu cynlluniau ymlaen llaw, gydag ymatebion gan rai rhanddeiliaid amaethyddol yn nodi bod well ganddynt gyflwyno cyfrifon maethol ar ddiwedd y flwyddyn.

Mynegodd ymatebion eraill, yn enwedig y rhai o'r sector amgylcheddol, gefnogaeth i ddull cynhwysfawr gyda chymaint o gydrannau ag sy'n ymarferol i gael eu cynnwys o fewn cynlluniau rheoli maethynnau.

Cwestiwn 5: Sut y gall risgiau i'r amgylchedd ehangach gael eu hystyried orau a sut y gall cynlluniau rheoli maethynnau gael eu hasesu mewn ffordd safonol?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg, heb unrhyw gonsensws clir. Cododd llawer o ymatebion bryderon ynghylch yr effeithiau posibl ar afonydd ACA presennol a safleoedd gwarchoddedig eraill. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd ac asesu effeithiau cronrus trwyddedau a roddwyd ar unrhyw ddalgylch.

Roedd rhai ymatebwyr o blaid rheoli'r risgiau hyn drwy eithrio ardaloedd bregus o unrhyw gynllun trwyddedu, tra bod eraill yn codi pryderon am eithrio unrhyw ardaloedd.

Nododd rhai ymatebwyr hefyd y baich ychwanegol y byddai cynllun trwyddedu yn ei roi ar CNC a'i effaith ar brosesau canfod a darparu adnoddau a gallu CNC i ymgymryd â gweithgarwch presennol mewn perthynas â'r rheoliadau.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno ei bod hi'n briodol gofyn am brofi a dadansoddi pridd i lywio cynlluniau rheoli maethynnau?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi defnyddio profi a dadansoddi pridd fel hyn. Cydnabu ymatebion fod profi pridd yn arfer gorau yn y sector ac yn weithgarwch y bydd llawer o ffermydd eisoes yn cymryd rhan ynddo, naill ai oherwydd gofyniad sicrwydd fferm neu yn sgil cefnogaeth flaenorol gan weithgarwch gan Cyswllt Ffermio.

Codwyd pryderon gan rai ymatebwyr ynghylch y gofyniad i'r defnydd o ffosforws ystyried anghenion llawn cylchdroi cnydau yn hytrach na gofynion unigol cnwd unigol. Cwestiynodd eraill allu labordai i ymdrin â gofynion profi pridd ychwanegol o fewn yr amserlen arfaethedig sydd ei hangen. Roedd nifer fach o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y gofynion arfaethedig yn glir ac y byddent yn ychwanegu lefel ychwanegol o ddryswch.

Yn olaf, cwestiynodd rhai ymatebwyr effeithiolrwydd defnyddio canlyniadau o fewn y 4 blynedd diwethaf, gan awgrymu y byddai cyfnod o 12 mis yn darparu mwy o gywirdeb.

Cwestiwn 7: A ddylid ystyried 'dull cydbwysedd ffosfforws fferm gyfan'? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn

Ni chafodd y dull hwn gefnogaeth eang. Cododd yr ymatebwyr bryderon am y diffyg methodoleg ar gyfer cyfrifo cydbwysedd o'r fath a'r diffyg gwerthoedd a nodir yn yr ymgynghoriad. Mynegodd eraill bryderon ynghylch sut y byddai tail a allforiwyd yn cael ei drin yn y cyfrifiadau.

Lle roedd cefnogaeth i'r dull gweithredu, roedd cydnabyddiaeth y byddai angen datblygu methodolegau priodol yn sylweddol ac ymgynghori ymhellach â'r sector, ac roedd ymatebwyr yn teimlo na fyddai hynny'n ymarferol o fewn yr amserlen arfaethedig.

Cwestiwn 8: A ddylai cynlluniau rheoli maethynnau ofyn am ffactorau maethynnau ac amodau pridd eraill ar wahân i nitrogen a ffosfforws? Os felly, pa rai?

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr yn ôl at ymatebion i gwestiynau blaenorol. O'r rhai a roddodd ymatebion penodol, roedd cydnabyddiaeth eang o'r angen i ystyried ystod o ffactorau er mwyn i gynllunio rheoli maethynnau fod yn effeithiol.

Roedd ymatebion eraill o'r farn y byddai dull dewisol o gynnwys eitemau y tu hwnt i ofynion nitrogen a ffosfforws yn fwy priodol, ac y byddent yn cydnabod y bydd rhai ffermydd eisoes yn ymgymryd â rheoli maethynnau ar sbectrwm ehangach nag sy'n ofynnol gan y cynllun arfaethedig. Roedd y farn hon yn ategu ymatebion eraill a oedd yn amlygu'r posibilrwydd y gallai gofynion ychwanegol arwain at ddyblygu neu gyfyngu ar y potensial i fusnesau fferm wneud cais am gynlluniau neu gyfleoedd cyllido eraill yn y dyfodol, neu gymryd rhan ynddynt.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r gofynion ychwanegol ynghylch mathau cymwys o dail da byw a gofynion ychwanegol ar gyfer mewnforio ac allforio tail da byw?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'n briodol eithrio tail da byw nad oeddent yn pori o unrhyw gynllun, oherwydd ei gynnwys ffosfforws uwch na da byw sy'n pori ac, o bosibl, risg uwch. Cododd ymatebwyr o'r sector amaeth bryderon ynghylch methodolegau cyfrifo, ac roeddent yn teimlo y gallai arwain at ddryswch a chyflwyno her benodol i ddaliadau cymysg. Cwestiynodd rhai ei berthnasedd o ystyried y gofyniad i ddangos gofyniad cnwd beth bynnag.

O ran y gofynion ychwanegol ar gyfer mewnforio ac allforio tail, cafwyd ymateb cymysg eto. Roedd pryderon yn canolbwyntio ar y baich gweinyddol ychwanegol a'r diffyg hyblygrwydd posibl i ymateb i amodau'r amgylchedd neu'r farchnad, gyda ffocws ar y defnydd cywir ar yr adeg gywir yn bwysig. Ar y llaw arall, roedd rhai yn teimlo bod rheolaethau ychwanegol yn bwysig i liniaru risgiau o ran y gallu i olrhain.

Cwestiwn 10: Sut gellid rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â gwasgaru tail â lefel uchel o nitrogen trwy amodau'r drwydded?

Beth yw'ch barn am reoli'r risg hon trwy bennu cyfnod pan gyfyngir ar wasgaru tail o'r fath?

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer yn teimlo bod yr amodau sydd eisoes yn y Rheoliadau yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryder ynghylch defnydd ychwanegol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn credu bod angen mwy o amddiffyniadau i leihau'r risg o lefelau uwch o faethynnau o dail yn cael eu gwasgaru.

Roedd cefnogaeth gyfyngedig i gyfyngu ar wasgaru tail â lefel uchel o nitrogen yn ystod cyfnodau penodol o fewn hyd cyffredinol y drwydded. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod yr amodau 'cyfnod caeedig' presennol yn y Rheoliadau yn briodol ac yn ddigonol. Roedd rhai hefyd o'r farn bod gofynion rheoli maethynnau yn lleihau'r risg o wasgaru tail ar adegau risg uwch o'r flwyddyn oherwydd y gofyniad cnwd cyfyngedig.

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'r gofynion ar gyfer diogelu pridd a amlinellir uchod? Os na, rhowch resymau

Er bod egwyddorion lleihau colledion pridd yn cael eu cefnogi'n fras, cafodd y gofynion arfaethedig ymateb cymysg. Roedd rhai'n credu eu bod yn rhy rhagnodol, er enghraifft, ac y gallai cynnwys dyddiadau sefydlog ar gyfer rhai gweithgareddau gael effeithiau andwyol ar gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Cydnabu ymatebion gan randdeiliaid amgylcheddol y byddai'r mesurau a amlinellwyd yn lliniaru risgiau i ryw raddau, ond roeddent yn teimlo na fyddent yn mynd i'r afael yn llawn â phryderon am orchudd pridd digonol yn ystod y gaeaf. Codwyd pryderon ehangach hefyd am y diffyg amddiffyniad deddfwriaethol ar gyfer priddoedd.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'n dull o ymdrin â gorfodi ac apeliadau?

Cafwyd cefnogaeth eang i'r dull gorfodi a'r dull arfaethedig o fynd i'r afael â phroses apelio. Amlygodd yr ymatebion yr angen i sicrhau bod y dull gorfodi a'r broses apelio yn glir ac yn deg, a bod apeliadau'n cael eu trin mewn modd amserol.

Codwyd pryderon gan yr holl ymatebwyr ynghylch y gofynion o ran adnoddau i ymgymryd â'r prosesau hyn yn briodol.

Cwestiwn 13: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cyflwyno'r cynllun trwyddedu arfaethedig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 14: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r Cynllun trwyddedu arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn sicrhau na fydd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl

ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr wedi grwpio eu hymatebion i gwestiynau 13 a 14. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn amlygu'r gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg a gyflogir o fewn amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi amaethyddol. Teimlwyd bod y cynllun o fudd i siaradwyr Cymraeg gan y byddai'n darparu mwy o wydnwch economaidd i'r sector amaethyddol.

Gwnaed cysylltiadau hefyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Cwestiwn 15: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych yn teimlo bod unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi

Denodd y cwestiwn hwn sawl ymateb am hyd arfaethedig y cynllun, gyda'r sectorau amaethyddol a phrosesu bwyd yn nodi cefnogaeth i gynllun barhau y tu hwnt i 2025 er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi amaethyddol ehangach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cawsom 1,504 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan ystod eang o randdeiliaid ledled Cymru a'r DU yn ehangach. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus, a byddant yn parhau i lywio datblygiadau ein polisi a'n deddfwriaeth wrth i ni fynd i'r afael â'r gweithgareddau y gwyddys eu bod yn achosi llygredd dŵr.

Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd i gefnogi cynllun yn yr ymatebion a dderbyniwyd. Roedd cefnogaeth glir a chryf i gynllun gan y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid ac ymatebwyr, ar yr amod ei fod yn syml ac yn hygyrch i fusnesau fferm, gan gynnal amddiffyniadau amgylcheddol pwysig ar yr un pryd.

Amlygodd y materion a godwyd gan ymatebwyr y cymhlethdodau o ran datblygu cynllun trwyddedu, yn enwedig yr angen i gydbwyso amddiffyniadau amgylcheddol cynhwysfawr â phroses gymesur a theg.

Ar ôl ystyried yr holl ymatebion a gafwyd yn ofalus, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu bwrw ymlaen â dull Rheoli Maethynnau Uwch am amser cyfyngedig, fel y cyhoeddwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd ac aelod dynodedig Plaid Cymru, ar 10 Hydref, drwy'r Cytundeb Cydweithio.